Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

269

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru

Alun Davies (Blaenau Gwent): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch cymorth i fusnesau a'r economi a wnaed ar 17 Mawrth 2020?

4 Cynnig i atal Reolau Sefydlog

(5 munud)

NNDM7309 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r eitem fusnes nesaf gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 18 Mawrth 2020.

5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

(5 munud)

NNDM7310 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau sy'n deillio o newid enw'r sefydliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2020; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad A i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau yn dod i rym ar 6 Mai 2020.

6 Cynnig i newid enw'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

(5 munud)

NNDM7311 – Elin Jones (Ceredigion)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3:

1. Yn cytuno i newid enw a chylch gwaith Y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad i'r Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd.

2. Yn nodi y bydd y newid yn dod i rym ar 6 Mai 2020.

7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

(5 munud)

NNDM7312 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Busnes y Cynulliad ac Amgylchiadau Eithriadol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mawrth 2020.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi bod y newidiadau hyn yn rhai dros dro, ac y byddant yn peidio â chael effaith pan gaiff y Cynulliad hwn ei ddiddymu.

8 Cynnig i ethol Cadeirydd Dros Dro a Llywydd Dros Dro dynodedig

(5 munud)

NNDM7313 – Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.24D, yn ethol David Melding yn Gadeirydd Dros Dro o dan y telerau a bennir o dan Reol Sefydlog 6.24E.

2. Yn unol â Rheol Sefydlog 6.24A, yn ethol David Melding yn Llywydd Dros Dro dynodedig

9 Datganiadau 90 Eiliad - WEDI'I OHIRIO

(0 munud)

10 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Cytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad - WEDI'I OHIRIO

(0 munud)

NDM7302 David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar gytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit – rôl i'r Cynulliad, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2019.

Er gwybodaeth: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 5 Chwefror 2020.

11 Dadl ar Ddeiseb P-05-912 - Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl - WEDI'I OHIRIO

(0 munud)

NDM7301 Janet Finch-Saunders (Aberconwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl' a gasglodd 5,682 o lofnodion.

P-05-912 Cynorthwyo teuluoedd sy'n colli plant a phobl ifanc yn sydyn ac yn annisgwyl

12 Dadl Plaid Brexit - Creulondeb i Anifeiliaid - WEDI'I OHIRIO

(0 munud)

NDM7299 Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd rhoi diwedd ar greulondeb i anifeiliaid yng Nghymru.

2. Yn cefnogi'r gwaharddiad ar y fasnach ffwr.

3. Yn cydnabod natur farbaraidd maglau a'r dioddefaint a achosir ganddynt.

4. Yn pryderu bod bwlch mewn deddfwriaeth gyfredol wedi caniatáu i'r rhai sy'n gosod trapiau barhau i ddal llwynogod, cwningod a mincod.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd gosod trapiau a defnyddio maglau yng Nghymru.

Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:

Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw am ddileu pob math o greulondeb i anifeiliaid yng Nghymru drwy:

a) deddfwriaeth ynghylch lles anifeiliaid a gaiff ei hatgyfnerthu'n raddol ac yn gyson;

b) polisïau ynghylch lles anifeiliaid sy'n cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol orau sydd ar gael a'r safonau moesegol uchaf;

c) camau gorfodi effeithol o ran y gyfraith drwy'r heddlu a'r timau troseddu gwledig;

d) camau gweithredu mwy cydgysylltiedig rhwng Llywodraeth Cymru, yr heddlu, awdurdodau lleol a sefydliadau bywyd gwyllt;

e) creu diwylliant o barch a thosturi tuag at bopeth byw.

2. Yn cefnogi Deddf Hela 2004, gan gredu bod hela llwynogod gan ddefnyddio cŵn yn farbaraidd, ac yn gwrthwynebu unrhyw gam i wanhau Deddf Hela 2004.

3. Yn llongyfarch Llywodraeth Cymru ar ei pholisïau presennol er mwyn gwarchod rhag creulondeb i anifeiliaid yng Nghymru, ac yn enwedig mewn perthynas â dileu TB Buchol ymysg gwartheg.

Deddf Hela 2004

13 Cyfnod pleidleisio

14 Dadl Fer - TYNNWYD YN ÔL

NDM7303 Mark Reckless (Dwyrain De Cymru)

Rôl Banc Datblygu Cymru o ran cefnogi tai a datblygu.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Mawrth 2020